ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Addysg yng Nghymru: Siarter llwyth gwaith

Mae'r siarter llwyth gwaith hon yn ymrwymiad i wella lles holl staff yr ysgol drwy leihau llwyth gwaith, gan alluogi'r proffesiwn i ganolbwyntio ar ddysgwyr. Mae'n ymrwymiad gan bartneriaid ar draws y proffesiwn addysg yng Nghymru i'r canlynol.

**Sicrhau llwyth gwaith rhesymol er mwyn cael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.**

**Ymddiriedaeth, gwerthfawrogiad a pharch ar gyfer profiad, gwybodaeth a barn broffesiynol.**

**Hyrwyddo gyrfa yn y byd addysg yng Nghymru sy'n ddeniadol, yn foddhaus ac yn werth chweil.**

## Drwy gydweithio i gyflawni ein hymrwymiad, byddwn yn:

- ystyried effaith newid a chynllunio'n effeithiol ar ei gyfer
- sicrhau tryloywder a chysondeb o ran disgwyliadau
- dileu biwrocratiaeth ddiangen
- diffinio rolau a chyfrifoldebau clir
- sicrhau bod arferion yn bwrpasol, yn gymesur ac yn effeithiol
- hyrwyddo cydweithredu ac annog ymgysylltu proffesiynol.




## Bydd partneriaid o bob rhan o'r sector yn cydweithio i:

- leihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth ddiangen drwy fynd ati ar y cyd i ddatblygu cynllun llwyth gwaith tymor hwy
- ystyried yr effaith ar lwyth gwaith wrth ddatblygu a gweithredu unrhyw bolisi, a chynllunio newid yn effeithiol
- cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd i sicrhau negeseuon cyson a meithrin perthnasau o ymddiriedaeth ar draws grwpiau rhanddeiliaid yng Nghymru
- hyrwyddo ac annog patrymau gweithio sy'n adlewyrchu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i hyrwyddo rhannu arfer gorau o ran lleihau llwyth gwaith staff
- hyrwyddo a chefnogi lles gweithlu'r ysgol.

Mae'r siarter llwyth gwaith hon yn cefnogi'r daith diwygio addysg a'r camau gweithredu allweddol a nodir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21.*

**Cefnogir y siarter llwyth gwaith hon gan:**

Llywodraeth Cymru Welsh Government | Estyn | GwE | Consortiwm Canolbarth y De Central South Consortium | EAS | ERW | CLlLC · WLGA | national education union cymru | NASUWT The Teachers' Union | UCAC | NAHT | ASCL Association of School and College Leaders | UNISON Cymru/Wales | GMB Wales & South West | Unite

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41399